

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru

## Taflen Ymgynghori Cyhoeddus

Hydref – Rhagfyr 2024

cyfoethnaturiol.cymru

# Beth yw Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru?



Rhiwargor

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), fel yr Awdurdod Dynodi, i werthuso'r achos dros greu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru.Yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn flaenorol), hwn fyddai (pe bai wedi'i ddynodi) y Parc Cenedlaethol newydd cyntaf yng Nghymru ers 1957.

Mae CNC yn dilyn gweithdrefn statudol ac yn casglu tystiolaeth.

Os yw'r dystiolaeth yn dangos bod y meini prawf sy'n ymwneud â Harddwch Naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored yn cael eu bodloni, a bod yr ardal yn genedlaethol bwysig, yna bydd Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn ac yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r Gorchymyn. Os caiff ei gadarnhau, byddai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi.

## Pam ydym ni'n ymgynghori â chi nawr?

Prif nod yr ymgynghoriad cyhoeddus yw casglu eich adborth ar y map ffiniau drafft, y cyfeirir ato fel yr Ardal Ymgeisiol.

Rydym hefyd eisiau gwneud y canlynol:

- Rhannu'r dystiolaeth yr ydym yn ei chasglu.
- Rhannu'r Ardal Ymgeisiol ar gyfer dynodiad Parc Cenedlaethol posibl.
- Rhoi cyfle i chi gyfrannu tystiolaeth.
- Casglu a deall safbwyntiau a gwybodaeth newydd nad ydynt wedi'u nodi eisoes.
- Ymgysylltu â chynulleidfa ehangach a chlywed gan y rhai yr effeithir arnynt, ond nad yw eu barn yn cael ei chynrychioli cystal yn ein gwaith hyd yn hyn.
- Helpu penderfynu a yw'n ddymunol creu Parc Cenedlaethol.

## Beth sydd wedi newid ers cyfnod ymgysylltu 2023?

Gwnaethom ystyried yn ofalus yr holl ymatebion i'n cyfnod ymgysylltu yn 2023 a chyflwyno ein canfyddiadau cychwynnol mewn adroddiad ymgysylltu a gyhoeddwyd ar wefan ein prosiect. Ers hynny, rydym wedi cwblhau cyfres o asesiadau sy'n rhoi gwybod i ni ai Parc Cenedlaethol yw'r ffordd fwyaf addas o weithredu ac sy'n rhoi dealltwriaeth gliriach i ni o beth ddylai maint daearyddol y Parc Cenedlaethol arfaethedig fod.

Roedd yr adroddiadau rydym wedi'u cwblhau hyd yn hyn yn seiliedig ar yr Ardal Chwilio a rannwyd yn 2023, ynghyd â rhai ardaloedd ychwanegol a ychwanegwyd gennym yn dilyn tystiolaeth a gyflwynwyd yn y cyfnod ymgysylltu yn 2023. Cwblhawyd yr asesiadau canlynol gyda chymorth ymgynghorwyr annibynnol:

- **Asesiad o Rinweddau Arbennig** – y rhinweddau hynny yn yr ardal sy'n haeddu cael eu gwarchod neu eu gwella.
- **Y Grymoedd dros Newid** – y dylanwadau deinamig sydd eisoes yn effeithio ar y rhinweddau arbennig neu'n debygol o effeithiau arnynt.
- **Opsiynau Rheoli** – yr opsiynau sydd ar gael i helpu i reoli'r grymoedd dros newid.
- **Ardaloedd Gwerthuso** – gwerthusiad tirwedd manwl o'r Ardal Chwilio gychwynnol ac ardaloedd a ychwanegwyd yn dilyn y cyfnod ymgysylltu yn 2023 yn nodi'r ardaloedd sy'n bodloni'r gofynion statudol ar gyfer dynodiad a'r rhai sydd ddim.
- **Ardal Ymgeisiol** – map ffiniau drafft o'r ardal lle mae tystiolaeth yn cefnogi dynodiad Parc Cenedlaethol.

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i asesu effaith bosibl dynodiad Parc Cenedlaethol newydd ar iechyd y cyhoedd, y Gymraeg a natur. Rydym hefyd yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddeall sut i addasu cynigion fel y gellir manteisio i'r eithaf ar y buddion, a lliniaru risgiau.

# Yr Ardal Ymgeisiol

Mae'r map o'r 'Ardal Ymgeisiol' yn nodi'r ardaloedd hynny, ar ôl gwerthusiad manwl gan ymgynghorydd tirwedd annibynnol a phrofiadol, y canfyddir eu bod yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer Parc Cenedlaethol.

Mae'r Ardal Ymgeisiol yn cynnwys yr ardaloedd allweddol a ganlyn: Bryniau Clwyd, Llandysilio i Fynydd Rhiwabon, Dyffryn Dyfrdwy, Dyffryn Chwiler ac Alun, Llwyfandir Trelawnyd, Pwll-glas, Y Berwyn, Dyffryn Tanat, Llyn Efyrnwy, Coedwig Dyfnant.

Mae rhai ardaloedd a oedd yn cael eu cynnwys yn flaenorol yn yr Ardal Chwilio heb eu cynnwys yn yr Ardal Ymgeisiol, sef Twyni Gronant a Thalacre, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain a Mynydd yr Hôb.

Yn dilyn sylwadau a ddarparwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu,

gwerthuswyd ardaloedd y tu hwnt i'r Ardal Chwilio. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys ardal ym Mhwll Glas, gyda chanolbwynt yn Llanelidan, ynghyd â Dyffryn Dyfrdwy a llethrau coediog yn Llandderfel hyd at yr Ardal Ymgeisiol. Daethpwyd i'r casgliad hefyd nad oedd ardal Mynydd Mynyllod yn bodloni'r meini prawf statudol.




## Cymerwch ran

**Rydym yn ymgynghori â chi nawr ar y map Ardal Ymgeisiol a thystiolaeth ategol.**

### Rydym am gael eich adborth.

Bydd digwyddiadau yn rhedeg trwy gydol y cyfnod ymgynghori i chi gael gweld mapiau a siarad ag aelodau o dîm y prosiect.Dim ond un digwyddiad sydd angen i chi ei fynychu (ar-lein neu wyneb yn wyneb) gan fod y cynnwys yr un peth ar gyfer pob un. Bydd digwyddiadau hefyd ar gyfer rhanddeiliaid targed megis aelodau etholedig, y rhai yn y sector amaethyddol a thirfeddianwyr, y sector ynni adnewyddadwy, grwpiau amgylchedd a threftadaeth, grwpiau hamdden a mynediad, grwpiau busnes a thwristiaeth, a chyfleustodau.Mae dyddiadau'r holl ddigwyddiadau yn cael eu harddangos ar-lein. Anogwch deulu a ffrindiau i gyfrannu eu hadborth hefyd.

Unwaith y byddwch wedi cael cyfle i weld y map o'r Ardal Ymgeisiol a'r crynodeb tystiolaeth, rydym yn eich annog i rannu eich adborth gyda ni. Mae'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus wedi'i gynllunio i roi pob cyfle i chi ddweud eich dweud ac mae'n rhedeg o ddydd Llun, 7 Hydref 2024, tan ddydd Llun, 16 Rhagfyr 2024.

**Hygyrchedd:** Os hoffech gael y daflen ymgysylltu hon mewn fformat gwahanol, anfonwch e-bost at **rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** a byddwn yn gwneud ein gorau i helpu.

## Rhannwch eich adborth

**Holiadur**

Rhowch eich adborth trwy lenwi ein holiadur.

Mae ein crynodeb byr o'r dystiolaeth a'r adroddiadau llawn ar gael ar wefan ein prosiect ac yn y digwyddiadau i'w darllen cyn ymateb i'n holiadur ymgynghori.

Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw dystiolaeth neu adborth newydd sydd gennych mewn perthynas â'r map. Byddwch yn benodol gan y bydd angen tystiolaeth gefnogol ar gyfer newidiadau.

**Y ffordd hawsaf i gyflwyno eich adborth yw ar-lein. Sganiwch y cod QR.**

Os na allwch chi wneud hyn ar-lein, gallwch gwblhau copi ar bapur a'i anfon yn ôl atom trwy wasanaeth rhadbost. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw amlen.

Rhadbost a Mwy RTJJ-AAKE-HKKU, Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Mae angen i bob ymateb ddod i law erbyn 23:59 ddydd Llun, 16 Rhagfyr 2024. Mae hyn yn cynnwys ymatebion post, felly caniatewch ddigon o amser ar gyfer dosbarthu.

Mae'n bosibl na fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r cam hwn o'r ymgynghoriad.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am Gynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru,

neu'r broses ymgynghori, neu fod angen cymorth arnoch i gwblhau holiadur.

Cysylltu â'r ganolfan gofal cwsmeriaid: **03000 653000** neu e-bostiwch **ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei ddadansoddi'n ofalus a'i ystyried gan y tîm sy'n gweithio ar Gynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru.

Bydd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi yn 2025.Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi ac yn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd a bydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan ein prosiect.

Unwaith y byddwn wedi casglu'r holl dystiolaeth, wedi gwneud diwygiadau ac wedi cynnal pob asesiad effaith, bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn 2025.

# Llinell Amser Gwerthuso
# Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru

**2021**

Llywodraeth Cymru yn ein comisiynu i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

**Cam 1**
**2021 - 2022**

**Cam 2**
**2022 - 2024**

Ein hastudiaeth **Ardal Chwilio** yn pennu cwmpas mwyaf posib yr ardal i'w hystyried.

Ein **hasesiad o Nodweddion Arbennig** yn nodi pa nodweddion y byddai gan Barc Cenedlaethol newydd ddyletswydd i'w gwarchod, eu gwella a'u hyrwyddo.

Ein **hasesiad Grymoedd dros Newid** yn nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar nodweddion arbennig yr ardal, er enghraifft twristiaeth, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a newid hinsawdd.

**Rydym yn rhoi gwerth ar ein perthynas â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, a bydd gwaith ymgysylltu â nhw yn chwarae rhan bwysig wrth lywio'r broses.**

Byddwn yn archwilio ac yn nodi'r opsiynau gorau ar gyfer rheoli'r ardal.

Yr ardaloedd hynny sy'n bodloni'r meini prawf yn symud ymlaen i fod yn **Ardaloedd Potensial** sy'n llywio'r gwaith o bennu ffiniau manwl.

Yr ardal yn cael ei rhannu'n **Ardaloedd Gwerthuso** ar gyfer gwaith dadansoddi a gwerthuso pellach yn erbyn y meini prawf cymhwyso.

**Cam 3**
**2024 - 2026**

**Ymgynghori** ar y ffin arfaethedig.

Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio fel y bo'n briodol.

Byddwn yn cyflwyno ein hargymhelliad i Lywodraeth Cymru ac os oes digon o dystiolaeth, yn cyflwyno **Gorchymyn Dynodi.**

Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ystyried y Gorchymyn Dynodi a chadarnhau, gwrthod, neu amrywio'r Gorchymyn.

**2026**

Os caiff ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, bydd Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi.

**Cam 1:** Cyn cychwyn

**Cam 2:** Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu

**Cam 3:** Y broses ddynodi statudol